

The background features a large, stylized yellow fish shape with a white outline, set against a white background with yellow abstract shapes. The text is centered and reads:


Yellow Fish

guidance manual

Canllawiau Atal Llygredd

Cynnwys

Cyflwyniad: Dim ond glaw i lawr y draen!	2
Beth yw'r problemau?	2
Canllawiau ar gyfer ardaloedd preswyl	3
Canllawiau ar gyfer ardaloedd masnachol a diwydiannol	3
Sut i rannu'r neges – y Pysgodyn Melyn	4
Canllawiau cyffredinol ar atal llygredd	4
Ffeithiau Pysgodyn Melyn	6
Asesiad risg enghreifftiol ar gyfer yr Ymgyrch	
Pysgodyn Melyn	7 - 9
Rhestr termau	10
Stensil Pysgodyn Melyn	11
Manylion cyswllt a chyhoeddi	12



Cyflwyniad: Dim ond glaw i lawr y draen!

Mae'r Pysgodyn Melyn yn offeryn atal llygredd syml â'r neges glir: 'Dim ond glaw i lawr y draen!' Gallwch helpu i ddiogelu eich afonydd drwy atal achosion o lygredd.

Mae'r Ymgyrch Pysgodyn Melyn yn gynllun sy'n adeiladu ar ddull rhyngwladol ar gyfer diogelu'r amgylchedd. Mae'n cynnwys marcio draeniau â symbol pysgodyn melyn a rhannu'r neges 'Dim ond glaw i lawr y draen!', i atgoffa pobl y gall unrhyw beth y maent yn ei roi i lawr y draen fynd yn syth i'r nant, afon, llyn, camlas, traeth neu ddŵr ymdrochi agosaf, gan beri llygredd a lladd bywyd gwyllt.

Mae'r cynllun yn codi ymwybyddiaeth o broblemau llygredd dŵr, yn hyrwyddo ymgysylltu cadarnhaol â chymunedau a busnesau, ac yn darparu cyfleoedd i gael sylw'r cyfryngau. Mae hefyd yn dangos eich ymroddiad i amddiffyn eich amgylchedd lleol.

Beth yw'r problemau?

Mae draeniau ffyrdd a draeniau dŵr wyneb wedi'u dylunio i gludo dŵr glaw yn unig, fel arfer yn uniongyrchol i'r cwrs dŵr agosach. Mae caniatáu i unrhyw beth ar wahân i ddŵr glaw fynd i lawr y draeniau hyn yn gyfartal â'i arllwys yn uniongyrchol i'n hafonydd, nentydd a chyrsgiau dŵr eraill. Gallai hyn fod yn llygredd o ystadau masnachu a diwydiannol, gweithgynhyrchu, safleoedd diwydiannol a gwastraff, safleoedd adeiladu, a datblygiadau tai. Ond gall hefyd fod yn bethau nad yw perchnogion tai yn ystyried y gallent beri llygredd – er enghraifft, dŵr o olchi eich car neu eich bin olwyn, paent gwastraff, a dŵr o olchi concriid. Gall effeithiau'r llygredd fod yn aciwt (effaith tymor byr) neu gronig (effaith tymor hir) a gallant amrywio o greu golygfa hyll i ladd pysgod a bywyd gwyllt.

Bydd llygryddion gwahanol yn effeithio ar gyrsgiau dŵr mewn ffyrdd gwahanol.

Olewau

Mae olewau a sylweddau perthynol megis olewau coginio a brasterau yn gallu lledaenu dros wyneb cwrs dŵr. Mae hyn oherwydd nad ydynt yn cymysgu â dŵr. Mewn meintiau bychain, mae olew yn ffurfio haen denau a all achosi effaith enfys a adwaenir fel symudliwiad. Gall meintiau mwy greu ymddangosiad mat ar wyneb y dŵr a phyllau o olew a allai gael eu hindreulio a mynd yn soled. Gall yr effeithiau amrywio o greu golygfa hyll i ladd pysgod a bywyd gwyllt, a gallent effeithio ar anifeiliaid anwes os ydynt yn mynd i mewn i'r dŵr.

Cemegion a charthffosiaeth

Gall sylweddau megis cemegion, dŵr golchi a gwastraff o bibelli sydd wedi cael eu camgysylltu ymddangos fel 'dŵr llwyd', a fydd yn lledaenu drwy gwrs dŵr cyfan. Mae dŵr llwyd hefyd yn gallu peri i ffwng carthffosion dyfu wrth y pibellau lle mae'r draeniau'n mynd i mewn i gwrs dŵr ac yn y cwrs dŵr, gan greu haen ar blanhigion a cherrig. Gall y sylweddau hyn achosi ocsigen isel yn y dŵr a chodi lefelau amonia. Mae hyn yn gallu peri i bethau byw 'dagu' ac mae'n gallu bod yn uniongyrchol wenwynig i anifeiliaid, pysgod a phlanhigion.

Adrodd am achosion o lygredd ar y Llinell Ddigwyddiadau Frys:

0800 80 70 60

Mae'r llinell yn rhad ac am ddim ac ar agor 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos.

**I adrodd am lygredd yng Nghymru, ffoniwch:
0300 065 3000**

Pwyswch 1 (ar ôl dewis 1 ar gyfer Cymraeg, 2 ar gyfer Saesneg). Mae hwn yn wasanaeth 24 awr y dydd ar gyfer adrodd am lygredd.

Canllawiau ar gyfer ardaloedd preswyl

Mewn ardaloedd preswyl, mae grwpiau cymunedol lleol yn gallu helpu i atal llygredd yn eu hafonydd a'u nentydd lleol drwy ymuno â'r cynllun Pysgodyn Melyn.

Mae dwy brif ran i'r cynllun Pysgodyn Melyn:

- codi ymwybyddiaeth o ffynonellau llygredd dŵr a sut i atal digwyddiadau yn eich ardal chi
- nodi'r draeniau sydd wedi'u cysylltu â'r afon â'r symbol Pysgodyn Melyn i atgyfnerthu'r neges am atal llygredd

Gellir rhannu'r neges 'Dim ond glaw i lawr y draen!' drwy baentio symbol pysgodyn melyn ar bwys yr holl draeniau sy'n mynd yn uniongyrchol i afonydd, neu drwy osod sticeri ar ochr y palmant ar bwys y draeniau.

Cyn ichi ddechrau, mae'n bwysig fod gennych gefnogaeth neu, o leiaf, caniatâd y landlord neu'r tiffeddiannwr sy'n berchen ar y draeniau lle rydych am baentio symbol neu osod sticer ar y palmant neu yn y ffordd. Bydd angen ichi gysylltu ag Adran Priffyrdd yr awdurdod lleol os ydych am farcio gyliau yn y ffyrdd.

Mae'r cynllun Pysgodyn Melyn hefyd yn rhoi cyfle i ymgysylltu ag ysgolion a chymunedau lleol, ac mae'n ddelfrydol fel rhan o brosiect gwella'r amgylchedd. Mae'n ddefnyddiol rhannu taflen wybodaeth yn hysbysu preswylwyr am yr hyn y mae'r cynllun yn ceisio ei gyflawni drwy farcio'r draeniau â symbolau pysgodyn melyn.

At ddibenion iechyd a diogelwch, rydym yn argymhell eich bod yn aros ar y palmant, yn marcio'r cerrig ar ochr y palmant yn unig, ac yn dilyn yr asesiad risg sydd wedi'i amgáu. Yn aml,

nid yw'n ymarferol gosod pysgodyn melyn ar bwys pob draen ar hyd y ffordd mewn ardaloedd preswyl, felly mae angen lleoli'r symbolau pysgodyn melyn ar sticer neu wedi'u paentio mewn ffordd sy'n atgoffa'r rhai sy'n defnyddio'r ffyrdd na ddylid rhoi ond dŵr glaw i lawr y draeniau dŵr wyneb. Pan fydd preswylwyr newydd yn symud i mewn, gallwch roi'r daflen Pysgodyn Melyn iddynt i egluro'r marciau ar y draeniau. Gallwch chi ddefnyddio'r dull hwn i ymgysylltu â'r gymuned ac ysgolion lleol er mwyn dangos eich ymroddiad i wella amgylcheddau lleol.

Os ydych yn trefnu prosiect Pysgod Melyn yn eich cymuned leol, rhaid i chi gynnal eich asesiad risg eich hun. Dangosir enghraifft o asesiad risg arferol ar dudalen 6.

Canllawiau ar gyfer ardaloedd masnachol a diwydiannol

Mae llygredd o ystadau masnachu a diwydiannol, gweithgynhyrchu a safleoedd diwydiannol a gwastraff, a safleoedd adeiladu a datblygiadau tai yn gallu cael effaith ddifrifol ar ansawdd dŵr.

Tiffeddiannwyr, landlordiaid a thenantiaid sy'n gyfrifol am atal llygredd. Mae'r cynllun Pysgodyn Melyn yn gallu atal llawer o fathau o achosion o lygredd rhag digwydd drwy godi ymwybyddiaeth ac annog arferion da.

Mae'r negeseuon ar gyfer parciau ac ardaloedd masnachol a diwydiannol yr un peth ag y maent ar gyfer ardaloedd preswyl: 'Dim ond glaw i lawr y draen!' Bydd angen ichi ofyn am ganiatâd y tiffeddiannwr i osod sticeri neu i baentio symbolau pysgodyn melyn ar gaeadau draen. Bydd y cynllun yn cael effaith fwy os yw'r holl gwmnïau mewn parc busnes yn cymryd rhan yn y cynllun.

Mae peri i lygredd fynd i mewn i afon, neu ganiatáu i hynny

ddigwydd drwy wybod, neu fethu â dilyn deddfwriaeth atal llygredd yn drosedd, ac mae'n bosibl y cymerir camau pellach.

Sut i rannu'r neges –y Pysgodyn Melyn

Bydd y deunydd rydych yn ei ddefnyddio i farcio eich pysgodyn melyn yn dibynnu ar anghenion ac oedran y bobl sy'n marcio'r pysgodyn. Wrth ddewis y deunydd y byddwch yn ei ddefnyddio, bydd angen penderfynu a fydd angen cyfarpar diogelu personol ar bobl.

Gellir gwneud symbolau dros dro gan ddefnyddio sialc neu baent posterï nad yw'n wenwynig – os yw plant yn gosod y symbolau, er enghraifft. Gellir gwneud y rhain yn barhaol nes ymlaen. Mae'n bosibl gwneud symbolau mwy parhaol drwy ddefnyddio paent acrylig parhaol, wedi'i osod â brws neu sbwng, paent chwistrell parhaol ar gyfer marcio llinellau, neu drwy osod sticeri pysgodyn melyn. Am resymau iechyd a diogelwch, rydym yn argymhell eich bod yn marcio'r cerrig ar ochr y palmant yn unig.



sticer pysgodyn melyn

Gallwch godi ymwybyddiaeth mewn nifer o ffyrdd:

- cylchlythyrau
- sgysiau blwch offer
- posterï
- sesiynau hyfforddi

Gwnewch yn siŵr fod pawb yn eich ardal leol yn gwybod beth yw ystyr y symbol pysgodyn melyn – mae gan bawb ran i'w chwarae wrth atal

llygredd. Os ydych yn gweithio gyda'r gymuned leol, efallai y

byddwch am ofyn i bapur newyddion lleol neu orsaf radio neu deledu leol gymryd rhan.

Canllawiau cyffredinol ar atal llygredd

Mae'r cynllun Pysgodyn Melyn yn gallu atal llawer o fathau o achosion o lygredd rhag digwydd drwy godi ymwybyddiaeth ac annog arferion da.

Cyffredinol: Cymerwch yn ganiataol fod eich gweithgareddau'n peri llygredd oni bai eich bod yn gallu dangos fel arall, a dilynwch neges y Pysgodyn Melyn – 'Dim ond glaw i lawr y draen!'

Deiliaid tai: Gwardwch ar hen olew, paent a sylweddau eraill drwy wasanaeth casglu gwastraff neu ganolfan ailgylchu leol eich awdurdod lleol. Peidiwch ag arllwys pethau i lawr y draeniau dŵr wyneb.

Draeniau safle: Lluniwch gynllun draenio cynhwysfawr ar gyfer eich safle, sy'n nodi draeniau dŵr budr, dŵr wyneb a thyllau archwilio. Gellir hefyd marcio draeniau fesul math (budr = coch, dŵr wyneb = glas, neu 'C' goch ar gyfer systemau draenio cymysg) a chyfeiriad y llif, yn ogystal â defnyddio symbol y Pysgodyn Melyn. Gall y mesurau hyn fod yn amhrisiadwy os oes digwyddiad ar eich safle.

Storio deunyddiau: Mae storio olew, cemegion neu ddeunyddiau amrwd mewn modd gwael (soled a hylif) yn peri llawer o achosion o lygredd. Storiwch ddeunyddiau mewn cynwysyddion priodol y gellir eu selio, sydd mewn cyflwr da, i ffwrdd o ddraeniau, cyrsiau dŵr neu dir anathraidd, a'u gwarchod rhag gwrthdrawiadau. Darparwch gyfyngiant eilaidd ar gyfer tanciau storio, cynwysyddion swmp canolraddol a bowseri (fel eu bod yn dal 110% o'u uchafswm capasiti) ac ar gyfer drymiau a chynwysyddion llai (paledau wedi'u byndio, hambyrddau diferion, ardaloedd wedi'u byndio â chwrbyn neu gynwysyddion y gellir eu selio). Mae'n bosibl y bydd hyn yn

ofyniad cyfreithiol ar gyfer storio eich olew. Gorchuddiwch fannau storio yn yr awyr agored i atal dŵr glaw rhag mynd i mewn i'r cyfyngiant eilaidd.

Gollyngiadau: Mae gollyngiadau'n peri llygredd drwy fynd i mewn i ddraeniau'n uniongyrchol neu drwy gael eu golchi i lawr gan ddŵr glaw ffo. Ataliwch ollyngiadau drwy storio ac ymdrin â deunyddiau mewn modd diogel, a golchwch ollyngiadau ar unwaith. Gwnewch yn sicr fod gennych becyn gollyngiadau ar y safle, sy'n cynnwys deunyddiau ar gyfer ymdrin â'r sylweddau rydych yn eu storio, er mwyn atal unrhyw ollyngiadau rhag lledaenu i ddraeniau cyfagos.

Storio gwastraff: Storiwch wastraff mewn cynwysyddion priodol y gellir eu selio, i ffwrdd o ddraeniau, cyrsiau dŵr ac ar thir anathraidd.

Elifion masnach: Peidiwch â gadael i elifion fynd i mewn i ddraeniau heb y cydsyniad priodol. Defnyddiwch atalwyr olew i atal dŵr sydd wedi cael ei lygru ag olew a deunyddiau soled rhag iddynt dianc eich safle. Peidiwch â gadael i ddŵr golchi fynd drwy atalwyr olew, gan fod glanedyddion yn gallu eu hatal rhag gweithio.

Ffeithiau Pysgodyn Melyn

- Mae'r rhan fwyaf o ddraeniau ffyrdd a draeniau dŵr wyneb wedi'u dylunio i gludo dŵr glaw yn unig. Mae arllwys llygryddion i lawr y draeniau hyn yn gyfartal â'u harllwys yn uniongyrchol i'r afon.
- Gall un litr o olew lygru un filiwn o litrau o ddŵr yfed.
- Mae olew o un injan car yn gallu llygru ardal yr un maint â dau gae pêl-droed.
- Nid yw olewau'n cymysgu â dŵr a gallant ledaenu dros ddŵr mewn haen â thrwch o un moleciwl.
- Mae olew yn wenwynig i fywyd dyfrol ac yn atal ocsigen rhag cael ei amsugno ar wyneb y dŵr.
- Ni ddylid gwaredu olewau a brasterau coginio i lawr draeniau hyd yn oed pan fyddant wedi'u cymysgu â glanedyddion.
- Gellir defnyddio olewau a brasterau coginio i gynhyrchu fiodiesel neu eu defnyddio fel biodanwydd.
- Gellir gwaredu ar olewau a brasterau coginio mewn mannau casglu dynodedig, neu gallent gael eu casglu gan gynlluniau lleol i'w hailgylchu.
- Mae'n bosibl y bydd dŵr ffo o safleoedd diwydiannol/masnachol yn cynnwys sylweddau llawn llygryddion sy'n peri difrod i'r amgylchedd.
- Gall carthion, dŵr llwyd ac olewau a brasterau coginio beri i lefelau ocsigen ostwng o ganlyniad i alw ocsigen biocemegol (biolegol) uchel.
- Mae'r amonia y mae carthion yn ei gynnwys yn uniongyrchol wenwynig i bysgod a bywyd dyfrol.
- Mae'r ffosffad mewn carthion a dŵr llwyd yn gallu peri tyfiant planhigion uwch ac ewtroffigedd.
- Mae'r lefelau uchel o faetholynnau mewn carthion a dŵr llwyd yn gallu peri i ffwng carthion dyfu ar wely afonydd a nentydd.
- Gall llygredd sy'n cyrraedd afonydd ar y tir beri llygredd ar draethau ac mewn dyfroedd ymdrochi.
- Mae priddoedd a thywod sy'n mynd i mewn i ddraeniau'n gallu peri llygryddion gwaddodol mewn afonydd, gan effeithio ar fannau silio pysgod.
- Mae adeiladau sydd wedi cael eu camgysylltu'n gallu arwain at lannau afonydd yn cael eu gorchuddio â phapur tŷ bach a chynhyrchion glanweithdra.
- Gall y cynllun Pysgodyn Melyn eich helpu i wneud gwelliannau i'ch cwrs dŵr ac amgylchedd lleol a'u hatal rhag dirywio.

Asesiad risg enghreifftiol ar gyfer yr Ymgyrch Pysgodyn Melyn

Gweithgaredd	Perygl	Sgôr risg	Beth/pwy sydd mewn perygl	Mesur rheoli	Hyfforddiant	Argyfwng	Y risg sydd ar ôl	Amllder y mesur rheoli / adolygia dau
Dod â gwirfoddolwyr o'r ysgol	Salwch/diffyg presenoldeb	Canolig	Y gweithgaredd a gwirfoddolwyr	Rhif ffôn cyswllt canolog cyn y gweithgaredd	Ddim yn berthnasol	Rhoi'r gorau i'r gweithgaredd	Dim	Pob sesiwn
Dod â gwirfoddolwyr o'r ysgol	Gwirfoddolwyr yn camymddwyn	Isel–canolig	Y gweithgaredd a gwirfoddolwyr	Mynd â'r unigolyn o dan sylw yn ôl i'r ysgol	Rheolau ymddwyn a'r gosb os torrir nhw	Ffonio'r ysgol	Dim	Pob sesiwn
Gweithio'n agos i ffyrdd	Gwrthdrawiad cerbydau	Canolig–uchel	Gwirfoddolwyr	Defnyddio dillad gwelededd uchel ac aros ar y palmant	Dweud wrth wirfoddolwyr am beidio â chamu i'r ffordd. Gwneud yn sicr y gall defnyddwyr ffyrdd eich gweld yn hawdd.	Ffonio 999 a rhoi cymorth cyntaf	Dim	Ar bob adeg
Croesi'r ffordd	Gwrthdrawiad cerbydau	Canolig–uchel	Gwirfoddolwyr	Defnyddio dillad gwelededd uchel a chroesi'r ffordd gydag oedolyn	Rheolau ymddwyn a'r gosb os torrir nhw	Ffonio 999 a rhoi cymorth cyntaf	Dim	Ar bob adeg
Dosbarthu taflenni	Baglu/cwmpo/cŵn/anafiad arall ac ati	Canolig–uchel	Gwirfoddolwyr	Goruchwyliaeth gan oedolion	Rheolau ymddwyn a'r gosb os torrir nhw	Ffonio 999 a rhoi cymorth cyntaf	Dim	Ar bob adeg
Paentio	Paent dros ben ar y ffordd	Isel	Dodrefn ffyrdd, strydoedd	Defnyddio blwch chwistrellu a lliain llwch	Oedolyn i ddangos y dechneg am y tro cyntaf	Sychu paent dros ben	Dim	Yn ystod chwistrellu

Gweithgaredd	Perygl	Sgôr risg	Beth/pwy sydd mewn perygl	Mesur rheoli	Hyfforddiant	Argyfwng	Y risg sydd ar ôl	Amllder y mesur rheoli / adolygia dau
Paentio	Cael paent ar geir. Sbarduno larymau.	Isel	Ceir, difrod troseddol, hawliadau yswiriant	Defnyddio blwch chwistrellu a lliain llwch. Peidio â chwistrelli os oes ansicrwydd. Peidiwch â chyffwrdd â cheir.	Oedolyn i ddangos y dechneg am y tro cyntaf. Asesu'r risg wirioneddol.	Sychu'r paent i ffwrdd	Dim	Yn ystod chwistrellu
Paentio	Cael paent ar aelodau'r cyhoedd	Isel	Y cyhoedd	Defnyddio blwch chwistrellu ar bob adeg. Aros nes i unigolyn fynd heibio i'r ardal chwistrellu.	Oedolyn i ddangos y dechneg am y tro cyntaf	Newid enw a chyfeiriad, iawndal	Dim	Yn ystod chwistrellu
Paentio	Cael paent ar ddillad, dwylo neu esgidiau	Canolig	Gwirfoddolwyr	Gwisgo hen ddillad	Oedolyn i ddangos y dechneg am y tro cyntaf	Newid menig, sychu i ffwrdd	Dim	Yn ystod chwistrellu
Paentio	Anadlu paent i mewn, ei lyncu, neu ei gael yn y llygaid	Canolig	Gwirfoddolwyr	Gwisgo sbectols diogelwch a mwgwd wrth chwistrellu	Oedolyn i ddangos y dechneg am y tro cyntaf	Asesu a mynd â'r unigolyn i'r ysbyty os yw'n ddifrifol	Rhoi'r gorau i'r gweithgaredd	Yn ystod chwistrellu
Paentio	Aelodau'r cyhoedd yn troedio mewn paent gwlyb a'i gludo i ysgol/tŷ/busnes	Canolig	Difrod i esgidiau ac eiddo	Labeli paent gwlyb, gosod papur dros y pysgod	Oedolyn i ddangos y dechneg am y tro cyntaf	Newid enw a chyfeiriad, iawndal	Dim	Ar ôl paentio, nes bod y paent yn sych

Gweithgaredd	Perygl	Sgôr risg	Beth/pwy sydd mewn perygl	Mesur rheoli	Hyfforddiant	Argyfwng	Y risg sydd ar ôl	Amllder y mesur rheoli / adolygia dau
Paentio	Tywydd gwael	Uchel	Y gweithgaredd a gwirfoddolwyr	Atal y chwistrellu a dychwelyd i'r ysgol neu gerbyd	Egluro'r weithdrefn ymlaen llaw	Asesu ac os oes angen rhoi'r gorau i'r sesiwn	Llithro	Ar bob adeg

Rhestr termau

Amonia – cyfansoddyn gwenwynig sy'n toddi mewn dŵr i wneud yr ïon amoniwm; mae'n gynyrrch gwastraff anifeiliaid/dynol ac yn cael ei ddefnyddio mewn gwrteithiau.

Dŵr ymdrochi – rhannau o'r môr neu ddyfroedd ar y tir sydd wedi cael eu dynodi i bobl nofio ynddynt.

Biodiesel – math o fiodanwydd a wneir o hen olewau coginio sy'n cael eu trin â chemegion i dynnu glyserol; fe'i defnyddir mewn cerbydau fel arfer.

Biodanwydd – tanwydd a wneir o ddeunyddiau planhigion newydd eu cynaeafu neu ddeunyddiau planhigion gwastraff sydd wedi cael eu hailgylchu.

Galw ocsigen biocemegol – maint yr ocsigen sydd ei angen ar ficrobau aerobig i ddatod deunyddiau organig mewn sampl o ddŵr. Mae datod deunyddiau organig yn tynnu ocsigen o'r dŵr.

Bowser – tanc symudol a ddefnyddir yn aml i gludo dŵr neu olew.

System ddraenio gyfunol – carthffos dŵr budr a dŵr wyneb gyfunedig. Wedi'i dylunio i gludo gwastraff toiled, elifion gwastraff a dŵr glaw i weithfeydd trin carthffosiaeth.

Elifion – gwastraff dŵr wedi'i drin neu heb ei drin, megis carthion budr neu ddŵr llwyd. Mae hefyd yn cynnwys dŵr gwastraff o brosesau diwydiannol.

Ewtroffigedd – y broses o ymateb i lefelau gormodol o faetholynnau, megis nitradau a ffosffadau o wrteithiau neu garthion. Gan amlaf, gwelir hyn ar ffurf blymau algaid, sef tyfiant bacteria neu algâu'n cynyddu'n afreolus mewn tywydd cynnes.

Draeniau budr – draeniau a phibelli a ddyluniwyd i gludo gwastraff toiled ac elifion gwastraff i weithfeydd trin carthffosiaeth.

Dŵr llwyd – dŵr gwastraff o ffynonellau megis peiriannau golchi dillad, sincipiau a pheiriannau golchi llestri.

Cynhwysydd swmp canolraddol – cynhwysydd a wnaed o blastig â chaets metel sy'n dal tua 1,000 o litrau.

Anathraidd – rhywbeth nad yw'n gadael i sylweddau, megis dŵr, fynd drwyddo.

Symudliwiad – effaith enfys a achosir gan haenau tenau o olew ar ddŵr.

Camgysylltiad – cysylltiad carthffos sy'n arwain at wastraff yn mynd i'r lle anghywir – e.e. gwastraff toiled i garthffos dŵr wyneb.

Ataliwr olew – fel arfer, cyfres o danciau a ddyluniwyd i dynnu olew o ddŵr drwy arafu cyflymder y llif a chaniatáu i'r olew ddidoli ac arnofio ar wyneb y dŵr.

Cyfarpar diogelu personol – cyfarpar a ddyluniwyd i atal anafiadau.

Ffosffad – cemeg sydd ei angen er mwyn i blanhigion dyfu, a geir yn aml mewn gwrteithiau a charthion.

Llygrydd – sylwedd neu wrthrych halogol sy'n peri llygredd.

Llygredd – llygryddion yn cael eu cyflwyno i'r amgylchedd naturiol sy'n cael effaith negyddol.

Carthion – dŵr toiled wedi'i halogi sy'n cynnwys gwastraff dynol.

Ffwng carthion – bacteria sy'n tyfu mewn ymateb i lefelau uwch o faetholynnau o ffynonellau megis carthion, sydd yn aml yn ffurfio matiau 'blewog' ar welyau cyrsiau dŵr.


Gweithfa trin carthffosiaeth – safle sy'n tynnu llygryddion ffisegol, cemegol a biolegol o ddŵr cyn ei ddychwelyd i afon.

Draeniau dŵr arwyneb – draeniau a phibelli a ddyluniwyd i gludo dŵr glaw i gyrsiau dŵr.

Cwrs dŵr – unrhyw gorff dŵr sy'n llifo megis nant, afon, pwll neu lyn. Mae hefyd yn cynnwys camlesi a hyd yn oed ffosydd sych sy'n cludo dŵr glaw i gorff dŵr sy'n llifo.

Templed paentio pysgod melyn

1. Argraffwch y templed ar bapur A4 i wneud yn sicr ei fod y maint cywir.
2. Torrwch yn ofalus o amgylch y pysgodyn melyn.
3. Gellir wedyn defnyddio'r templed neu ei drosglwyddo i ddeunydd arall (e.e. card, cardfwrdd, leino, plastig).
4. Crëwch flwch o gwmpas y templed i atal paent rhag lledaenu os ydych yn defnyddio paent chwistrell.



Manylion cyswllt

Cysylltwch â'r cynllun Pysgodyn Melyn drwy e-bost:

yellow.fish@environment-agency.gov.uk

Am ragor o wybodaeth ewch i:

www.oilcare.org.uk

Hoffem gydnabod eich cefnogaeth ac ychwanegu eich prosiect at ein map Pysgodyn Melyn, sy'n dangos lleoliad y prosiect, pwy a gynhaliodd y prosiect, a phryd.

Cwblhewch ffurflen adborth, sydd ar gael ar wefan Oil Care, ar gyfer eich prosiect Pysgodyn Melyn a'i hanfon at y cyfeiriad e-bost uchod.

Cafodd y deunyddiau eu haddasu o'r deunydd gwreiddiol a'u hailgynhyrchu gyda chaniatâd caredig Asiantaeth Diogelu Amgylcheddol yr Alban.

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2018

